BETH YW GWAITH GWEDDUS?

Canllaw i Athrawon

Mae *Beth yw gwaith gweddus?* yn cynorthwyo dysgwyr i ystyried syniadau ynglŷn â gwaith a beth mae gwaith gweddus yn golygu iddyn nhw. Yn yr ail sesiwn, bydd y dysgwyr yn edrych ar astudiaethau achos o rai grwpiau a sefydliadau sy'n dylanwadu ar faterion yn ymwneud â gwaith gweddus, fel cyflog teg a hapusrwydd cyflogeion.

Beth yw gwaith gweddus?

Mae gwaith gweddus yn golygu gwahanol bethau i wahanol bobl. Nod yr adnodd hwn yw cynorthwyo dysgwyr i feddwl yn feirniadol am beth yw gwaith gweddus. Beth mae'n golygu iddyn nhw a beth mae'n golygu i eraill.

Ar sail adolygiad o lenyddiaeth ddiweddar yn ymwneud â gwaith gweddus, mae Oxfam yn cynnig diffiniad sydd ag iddo bump o agweddau craidd: cyflog, nodweddion hanfodol gwaith, telerau cyflogaeth, iechyd a diogelwch a materion cydbwysedd gwaith a bywyd. Dyma'r pum agwedd y mae'r dysgwyr yn eu hystyried drwy'r adnodd hwn. Wrth iddynt fwrw ymlaen i ddysgu, efallai y bydd y dysgwyr yn penderfynu ar eu hagweddau craidd eu hunain.

Tlodi yng Nghymru

Ym Mhrydain, mae gan yr 1% cyfoethocaf gymaint o gyfoeth â 55% tlotaf y boblogaeth[1]. Yng Nghymru, mae 23% o'r aelwydydd yn byw mewn tlodi cymharol[2]. Mae hanner yr aelwydydd hyn yn cynnwys o leiaf un person sydd mewn swydd, sy'n dangos nad yw gwaith bob amser yn ffordd i godi o dlodi. Mae'r defnydd a wneir o fanciau bwyd Ymddiriedolaeth Trussell yng Nghymru yn anghymesur o uchel o gymharu â rhanbarthau eraill y Deyrnas Unedig. Yn 2014-15, rhoddwyd gwerth tridiau o fwyd mewn argyfwng i 85 875 o bobl yng Nghymru, gan gynnwys 30 136 o blant[3].

[1] ONS (2014) "Wealth and income, 2010-12" http://.ons.gov.uk/ons/dcp171778_368612

[2]ONS (2015) "Cartrefi islaw'r incwm cyfartalog" drwy Lywodraeth Cymru http://gov.wales/statistics-and-research/households-below-average-income/?lang=cy

[3]Ystadegau Ymddiriedolaeth Trussel http://www.trusselltrust.org/stats

Gwaith di-dâl?

Nid yw pob gwaith yn derbyn tâl. Mae llawer o bobl yn gofalu am blant, rhieni oedrannus, perthnasau neu ffrindiau sydd ag anableddau; weithiau byddant yn darparu gofal 24 awr y dydd. Mae'r gofal sy'n cael ei ddarparu gan ofalwyr di-dâl yng Nghymru werth tua £8.1 biliwn y flwyddyn[4]. Awgryma *Gofalwyr Cymru* y byddai'r system iechyd a gofal cymdeithasol yn dymchwel heb gymorth gofalwyr. Gall gwaith di-dâl hefyd fod ar ffurf profiad gwaith, er mwyn rhoi profiad o swydd neu ddiwydiant penodol i rywun, neu waith gwirfoddol i sefydliad nid-er-elw.

[4] http://www.carersuk.org/wales/news/vale-of-unpaid-care-in-wales

Beth yw'r gwahaniaeth rhwng y Cyflog Byw a'r Cyflog Byw Cenedlaethol?

Caiff y Cyflog Byw ei gyfrifo yn flynyddol gan y Sefydliad Cyflog Byw, a chaiff ei gyfrifo ar sail cost byw yn y Deyrnas Unedig. Cyflog Byw y DU ar hyn o bryd yw £8.25 yr awr. Yn Llundain, maer Cyflog Byw yn £9.40 yr awr. Gall busnesau gofrestru'n wirfoddol i fod yn gyflogwr Cyflog Byw. Mae mwy o wybodaeth am y Cyflog Byw i'w gweld fan hyn: http://www.livingwage.org.uk/what-living-wage

Ym mis Gorffennaf 2015, cyhoeddwyd y byddai Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn cyflwyno Cyflog Byw Cenedlaethol gorfodol i weithwyr 25 oed a hŷn o fis Ebrill 2016 ymlaen. Gosodwyd hyn i gychwyn ar £7.20. Bydd yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol o £6.70 yn dal yn berthnasol i rai 21 i 24 oed. Yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol i rai 18-20 oed yw £5.30, a £3.87 i rai 16 ac 17 oed. Cewch wybod mwy am gyfraddau'r Cyflog Byw Cenedlaethol a'r Isafswm Cyflog Cenedlaethol fan hyn:

- https://www.gov.uk/government/publications/national-living-wage-nlw
- https://www.gov.uk/national-minimum-wage-rates

Gwefannau defnyddiol:

- Gyrfa Cymru: http://www.careerswales.com
- Tueddiadau gwaith Gyrfa Cymru: http://www.careerswales.com/en/tools-and-resources/job-trends/
- Ted Talk – Dan Ariely: What makes us feel good about our work? https://www.ted.com/talks/dan_ariely_what_makes_us_feel_good_about_our_work?language=en
- Masnach Deg Cymru: http://fairtradewales.com/resources/teaching-learning
- The Guardian- the future of work: http://www.theguardian.com/society/series/the-future-of-work

Telerau defnyddio

Hawlfraint © Oxfam GB

Cewch ddefnyddio'r ffotograffau hyn a'r wybodaeth gysylltiedig at ddibenion addysgol yn eich sefydliad addysgol. Gyda phob defnydd, rhaid ichi gyfeirio at y ffotograffydd a enwir ar gyfer y ddelwedd honno ac at Oxfam. Ni chewch ddefnyddio delweddau a gwybodaeth gysylltiedig at ddibenion masnachol nac y tu allan i'ch sefydliad addysgol. Mae'r holl wybodaeth sy'n gysylltiedig â'r delweddau hyn yn perthyn i'r dyddiad a'r amser y cynhaliwyd gwaith y prosiect.